



Canllaw Addysg Uwch 2022 - 2023

LLWYDDWCH

>> YN COLEG GWENT



Parth Dysgu Blaenau Gwent > Campws Crosskeys > Campws Dinas Casnewydd > Campws Brynbuga > Parth Dysgu Torfaen

LLWYDDWCH

>> GYDA GRADD O COLEG GWENT

Mae cymhwyster prifysgol o fewn eich gafael, ac nid oes rhaid talu'n ddrud. Yn Coleg Gwent, mae gennym doreth o gyrsiau addysg uwch ar draws ein pum campws. Felly rydym yn siŵr o allu cynnig y cwrs delfrydol i chi!

Fel un o'r colegau mwyaf yng Nghymru, gyda chymuned o dros 16,000 o ddysgwyr, rydym yn croesawu myfyrwyr o bob cefndir ac oedran!

Rydym yn ymroddedig i'ch helpu chi gyflawni'ch nodau, gyda chysylltiadau cryf â diwydiannau a phrifysgolion partner - mae astudio gyda Coleg Gwent yn rhoi'r cyfle i chi feithrin rhwydweithiau proffesiynol a gwella eich cyfleoedd proffesiynol.

Gwyddom fod addysg uwch yn fuddsoddiad cadarn yn eich dyfodol. P'un ai a hoffech ennill mantais yn y farchnad swyddi hynod gystadleuol, atgyfnerthu'ch rhagolygon am ddrychafiad neu ddilyn cyfeiriad hollol newydd yn eich gyrfa hyd yn oed, dewch i lwyddo yn Coleg Gwent!



CYSYLLTWCH Â NI

Anfonwch unrhyw gwestiynau sydd gennych at ein tîm recriwtio myfyrwyr cyfeillgar.

>> HELO@COLEGGWENT.AC.UK

>> 01495 333777

(Croesawn alwadau yn Gymraeg).

CYNNWYS



- 2 Croeso
- 4 Pam Dewis Coleg Gwent?
- 6 Eich Canllaw Cymwysterau
- 8 Digwyddiadau Agored
- 9 Campysau
- 10 Eich Cefnogi Chi
- 12 Canolbwyntio ar Gyllid
- 16 Busnes a Cyfrifeg
- 18 Astudiaethau Ceffylau ac Iechyd Anifeiliaid
- 20 Celf a Dylunio, y Cyfryngau, Ffotograffiaeth
- 22 Cyfrifiadureg a Thechnoleg Ddigidol
- 24 Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- 26 Addysg a Hyfforddiant
- 28 Peirianeg
- 30 Colur ar gyfer y Theatr/Cyfryngau a Therapiau Cyflenwol
- 32 Iechyd a Gofal y Cyhoedd
- 34 Cerdd, Drama a Dawns
- 36 Gwyddoniaeth
- 38 Chwaraeona Gwasanaethau Cyhoeddus
- 40 Sut i Ymgeisio



PAM DEWIS NI?

»» MYNNWCH BROFIAD Y BRIFYSGOL



RYDYM NI'N LLEOL

Arbedwch arian ar gostau teithio a llety drwy astudio'n agosach at eich cartref. Bydd gennych ragor o amser i dreulio gyda ffrindiau, teulu neu yn y gwaith.



CYRSIAU HYBLYG

Mae ein hystod eang o bynciau ac opsiynau astudio yn golygu y gallwch astudio'n llawn amser neu'n rhan amser, i gyd-fynd â gwaith neu ymrwymadau eraill.



LLWYDDWCH GYDA NI

Gall ein cyrsiau addysg uwch proffesiynol perthnasol roi mantais i chi mewn cystadleuaeth, gan gynyddu'ch cyflog o bosib, a rhoi mwy o gyfleoedd a gyrfa werth chweil i chi. Mae dros hanner ein dysgwyr yn ychwanegu at eu gradd yn ein prifysgolion partner.



GALLECH ARBED ARIAN

Mae rhai o'n cyrsiau addysg uwch yn rhatach na'r rheini mewn prifysgolion, felly gallech arbed miloedd o bunnoedd ar ffioedd dysgu!

Mae ein holl gyrsiau wedi'u hachredu gan ein prifysgolion partner sy'n golygu y bydd gennych fynediad at yr holl adnoddau sydd eu hangen arnoch i lwyddo. Os ydych yn cwblhau cwrs sy'n cael ei ddyfarnu gan un o'n prifysgolion partner, cewch dystysgrif gan y brifysgol a chewch eich gwahodd i seremoni raddio.

»» LLWYDDWCH MEWN PARTNERIAETH Â



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd





PROFIAD YN Y GWEITHLE

Fel rheol, mae ein cyrsiau yn cynnwys dysgu yn y gweithle yn ogystal ag yn y coleg, felly byddwch yn magu sgiliau sy'n ymwneud â gyrfa ac yn cael profiad mewn diwydiant penodol. Dyma'r elfennau mae cyflogwyr eisiau eu gweld, ac felly cewch gyfle da i ddod o hyd i'r yrfa yr ydych yn dyheu amdani.



CYMORTH ARIANNOL

Mae ystod eang o grantiau, bwrsariaethau a benthyciadau gan y llywodraeth ar gael i'ch cefnogi chi wrth i chi astudio – felly gallwch roi'r gorau i boeni am arian a chanolbwyntio ar ennill eich cymhwyster lefel prifysgol.



TIWTORA GWELL

Mae maint llai ein dosbarthiadau yn golygu y byddwch yn derbyn cymorth rhagorol gan staff darlithio a staff cymorth ymroddedig.



EICH CANLLAW CYMWYSTERAU

»» DEWIS Y CWRS CYWIR I CHI

Yn ansicr pa gymhwyster sy'n addas i chi neu ar ba lefel y dylech ddechrau? Dyma ganllaw defnyddiol i'ch helpu chi ddeall y lefel astudio ar gyfer ein cyrsiau ac i'ch cynorthwyo i ddewis y cymhwyster addas ar eich cyfer chi a'ch nodau.

Lefel	Cymhwyster		Llwybr Dilyniant	Lefel Swydd
7	Gradd Meistr/Doethuriaeth		--	Gweithiwr Proffesiynol Siartredig
6	Gradd Anrhydedd/Baglor		Gradd Meistr neu Ddoethuriaeth	
5	Gradd Sylfaen / HND	Diploma Proffesiynol / Diploma mewn Addysg Uwch	Codi'r radd i ennill gradd lawn	Rheolwr Proffesiynol
4	HNC	Tystysgrif Broffesiynol / Tystysgrif Addysg Uwch	HND neu Ddiploma/ Tystysgrif Broffesiynol	



GRADDAU SYLFAEN

Mae Graddau Sylfaen yn cyfuno astudiaeth academaidd gyda dysgu yn y gweithle/dysgu cysylltiedig â gwaith, ac yn cyfateb yn fras i ddwy flynedd gyntaf gradd. Maent wedi'u dylunio gyda maes gwaith penodol mewn golwg, gyda chymorth gan sefydliadau o bob sector, fel eich bod chi'n magu'r sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Y CAM NESAF

Ar ôl i chi gyflawni Gradd Sylfaen, gallwch ddefnyddio eich cymhwyster a'ch profiad gwaith i ddod o hyd i waith, neu 'godi' eich cymhwyster i Radd Baglor lawn. Mae hyn fel rheol yn cynnwys un neu ddwy flynedd ychwanegol o astudio.

TYSTYSGRIFAU CENEDLAETHOL UWCH (HNC) A DIPLOMÂU CENEDLAETHOL UWCH (HND)

Cyrsiau cysylltiedig â gwaith yw HNC a HND a werthfawrogir yn fawr gan gyflogwyr yn y DU a dramor. Er bod Graddau Baglor yn tueddu i ganolbwyntio ar ennill gwybodaeth, mae HNC a HND wedi'u dylunio i roi i chi'r sgiliau i ddefnyddio'r wybodaeth honno yn effeithiol mewn galwedigaeth benodol.

Mae cymwysterau Cenedlaethol Uwch yn gwneud mwy na'ch paratoi ar gyfer gwaith. Mae rhai HNC yn caniatáu mynediad uniongyrchol i ail flwyddyn rhaglen radd ac mae nifer o HND yn caniatáu mynediad uniongyrchol i drydedd flwyddyn gradd. Gall HNC neu HND hefyd eich cyflwyno i nifer o gyrff proffesiynol. Felly, p'un ai a ydych eisiau camu'n syth i'r byd gwaith neu barhau â'ch astudiaethau, gall ennill cymhwyster Cenedlaethol Uwch fod yn fan cychwyn arbennig o dda.

GRADDAU 'ATODOL'

Mae gradd Atodol yn gyfwerth â blwyddyn olaf astudiaeth israddedig, gan roi cymhwyster lefel gradd i chi. Fel yr awgryma'r enw, mae'r cyrsiau hyn yn eich galluogi i 'godi' eich cymhwyster presennol, p'un ai a yw'n Radd Sylfaen neu'n gymhwyster perthnasol arall, fel HND. Mae gan bob cwrs ei ofynion mynediad ei hun, felly edrychwch ar y cwrs sydd o ddiddordeb i chi am ragor o wybodaeth ynghylch beth yn union fydd ei angen arnoch i wneud cais. Yn ogystal, sicrhewch eich bodd yn gwirio a ydych yn gwmwys am gyllid myfyrwyr.

CYMWYSTERAU PROFFESIYNOL

Mae cymwysterau proffesiynol yn canolbwyntio ar wella eich gallu i lwyddo mewn galwedigaeth benodol, sy'n berffaith os oes gennych nod clir o ran gyrfa ac yn dymuno ennill profiad gwaith gwerthfawr. Mae nifer o yrfaeod yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar gymhwyster proffesiynol, ond yn achosion eraill, nid yw cymwysterau proffesiynol yn hanfodol; maent yn eich gwneud chi'n fwy cwmwys yn eich maes ac yn eich helpu chi i fynd ymlaen yn eich gyrfa.

DIGWYDDIADAU AGORED

GWNEWCH Y CAM NESAF ER MWYN LLWYDDO

Mae ein digwyddiadau agored yn trafod popeth y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohono ynghylch bywyd yn y coleg, cymorth, cyllid, ein cyrsiau a llawer mwy. Mae croeso i bawb ac rydym yn eich annog chi i fynnu'ch lle ymlaen llaw ar ein gwefan er mwyn cofrestru'n gyflym. Rydym hefyd yn croesawu pobl sy'n galw heibio yn ddirybudd. Mae pob un o'n campysau yn cynnig gwahanol bynciau, felly yn dibynnu ar ba bynciau ydych chi am eu trafod mewn digwyddiad agored, ewch i'r campws perthnasol.

Rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau agored rhithiol gydol y flwyddyn, felly cadwch lygad ar ein gwefan am ddiweddariadau.



YN EIN DIGWYDDIADAU AGORED GALLWCH:



GAEL RHAGOR O WYBODAETH YNGHYLCH CWRS NEU FAES PWNC GAN EIN TIWTORIAID ARBENIGOL



CAEL CIPOLWG O'R CAMPWS, Y CYFLEUSTERAU A'R DOSBARTHADAU



DYSGU AM Y BROSES YMGEISIO A GWNEUD CAIS YN Y FAN A'R LLE



CAEL RHAGOR O WYBODAETH AM YRFAOEDD POSIBL



CAEL GWYBODAETH YNGHYLCH CYMORTH ARIANNOL



CAEL GWYBODAETH YNGHYLCH EIN GWASANAETHAU CYMORTH

COFRESTRWCH
NAWR



Ewch i'n gwefan i weld rhestr gyfredol o'r holl ddigwyddiadau agored sydd gennym ar y gweill, ac i fynnu'ch lle ynddynt:

WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AGORED

CAMPYSAU

EISIAU RHAGOR O WYBODAETH YNGHYLCH EIN CAMPYSAU?

Wyddoch chi y gallwch fynd ar daith o'n campysau ar unrhyw bryd, heb orfod gadael y tŷ? Ewch am dro ar ein campysau drwy ein llwyfan digwyddiad rhithiol. Ewch i

» WWW.VIRTUAL.COLEGGWENT.AC.UK/CY



CAMPWS CROSSKEYS

Mae ein campws mwyaf, lle mae ein stiwdios ffotograffiaeth a chyfleusterau'r theatr trawiadol wedi'u lleoli ar gyfer cyrsiau y celfyddydau perfformio, yn ogystal â llyfrau gydag adnoddau Mac, llyfrau a mynediad at gylchgronau ar-lein – a llawer mwy!



PARTH DYSGU BLAENAU GWENT

Mae gan Barth Dysgu blaenllaw Blaenau Gwent gyfleusterau o'r radd flaenaf yn cynnwys gweithdai adeiladu pwrpasol, stiwdios recordio, ystafelloedd cyfrifiaduron Mac, neuadd berfformio, llyfrgell a'n car rasio ac awyren ein hunain!



CAMPWS DINAS CASNEWYDD

Mae gan ein campws Dinas Casnewydd lu o gyfleusterau - gan gynnwys gweithdai peirianeg ac adeiladu gyda chyfarpar da, labordai gwyddoniaeth, yn ogystal ag ystafell technoleg ddigidol arloesol.



PARTH DYSGU TORFAEN

Yn cynnig ystod eang o bynciau, mae Parth Dysgu Torfaen yng nghanol Cwmbrân gyda pharcio ar y safle ac mae'n hynod hygyrch drwy drafnidiaeth gyhoeddus.



CAMPWS BRYNBUGA

Ar gampws Brynbuga y darperir ein cyrsiau amaethyddiaeth, chwaraeon, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus. Wedi'i leoli yng nghanol cefn gwlad hardd ar gyrion tref hanesyddol Brynbuga.

EICH CEFNOGI CHI

TIWTORIAID PERSONOL

A chithau'n ddysgwr addysg uwch, cewch gymorth unigol gan diwtor personol o'r eiliad y byddwch yn ymuno â Coleg Gwent. Cewch diwtorialau rheolaidd a bydd eich tiwtor yn monitro'n agos eich cynnydd ac yn eich cefnogi chi drwy eich astudiaeth. Bydd eich tiwtor yn eich helpu chi i ymgartrefu yn y coleg, eich arwain drwy eich cwrs, yn cynnig cymorth yn ystod unrhyw gyfnodau anodd ac yn dathlu'ch llwyddiannau.



HYBIAU ADDYSG UWCH

Ar rai campysau penodol, cewch le arbennig ar gyfer eich dysgwyr addysg uwch gyda; chyfrifiaduron, ardaloedd trafod a soffas ar gyfer astudio tawel neu ymlacio. Beth am fynd ar daith o gwmpas un ohonynt yn un o'n digwyddiadau agored?

SWYDDOGION DILYNIANT ADDYSG UWCH

Ar bob campws, mae gennym Swyddog Dilyniant Addysg Uwch a fydd yn eich cefnogi chi gyda materion academiaidd a bugeiliol drwy gydol eich rhaglen astudio. Mae Swyddogion Dilyniant Addysg Uwch yn ymroddedig i'ch cefnogi chi drwy unrhyw anhawster yr ydych yn ei wynebu, gan gynnwys eich cyfeirio at un o'n timau arbenigol perthnasol.





ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Yn dilyn cadarnhad gan Gyllid Myfyrwyr Cymru/Lloegr, os ydych wedi cofrestru anhawster dysgu ac/neu anabledd, gallwn ddarparu llawer o gymorth..

Gallai'r rhain gynnwys:

- **Cyngor ariannol**
- **Ymdopi â straen a gorbryder**
- **Cymorth yn y dosbarth gan Gymhorthydd Cymorth Ychwanegol**
- **Sesiynau ychwanegol i helpu gydag aseiniadau a gwaith cwrs**
- **Cymorth gan Weithiwr Cymorth Cyfathrebu (i fyfyrwyr byddar) Cymorth dyslecsia**
- **Defnydd o feddalwedd hygyrchedd gan gynnwys hyfforddiant Trefniadau mynediad arholiadau**

Os oes angen cymorth arnoch, siaradwch â'ch Tiwtor Personol, cysylltwch â Chydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo) eich campws neu swyddog Dilyniant Addysg Uwch.



CYMORTH ASTUDIO YN YR IAITH GYMRAEG A DWYIEITHOG

Mae gennym gymorth ar gael ar bob un o'n campysau os hoffech ddysgu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r 'HWB Cymraeg' yn cynnig gwybodaeth ynghylch buddion astudio'n ddwyieithog, cymorth un i un i gwblhau gwaith yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, arweiniad ar ddefnyddio apiau i helpu gydag astudio'n ddwyieithog a pharatoi at asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.



RYDYM YN GWRANDO ARNOCH

Yn Coleg Gwent, rydym yn gwrandao ar eich safbwyntiau a'ch profiadau ac yn eu defnyddio i wella'n barhaus y profiad i ddysgwyr. Mae sawl ffordd o roi adborth i ni; llais cynrychiolydd dosbarth, fforymau dysgu, pwyllgorau a grwpiau, yn ogystal â holiaduron adborth gan ddysgwyr.

CANOLBWYNTIO AR GYLLID

Mae cwrs addysg uwch yn fuddsoddiad yn eich dyfodol; er bod costau ynghlwm â dysgu, boed ar ffurf amser neu'n ariannol yn sgil ffioedd dysgu, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys am gymorth ariannol sy'n golygu gallai'r gost fod yn is na'r disgwyl.

BETH YW'R GOST?

› Cyrsiau sy'n cael eu hachredu gan Brifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth

Mae Graddau Sylfaen, HNC a HND gan y prifysgolion hyn yn £7,500 y flwyddyn*. Mae pob cwrs atodol BSc a BA yn £9,000.

› Cyrsiau wedi'u hachredu gan Brifysgol Caerwrangon

Mae Graddau Sylfaen wedi'u hachredu gan y brifysgol hon yn £9,250 y flwyddyn.

› Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol

Ar gyfer 2022-23, y ffioedd fesul 20 Credyd yw £900 – fel arfer byddech yn astudio 60 credyd fesul blwyddyn academiaidd.

› Graddau atodol gan Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd

Mae Graddau Atodol wedi'u hachredu gan y prifysgolion hyn yn £9,000 y flwyddyn.

› Cymwysterau Uwch Cenedlaethol gan Pearson

Mae cymwysterau Cenedlaethol Uwch wedi'u hachredu gan Pearson yn amrywio o ran ffioedd, felly edrychwch ar wybodaeth y cyrsiau unigol ar ein gwefan.

Noder bod y costau hyn yn gywir o fis Mehefin 2022 ac y gallant newid.





COSTAU YCHWANEGOL

Efallai y bydd costau ychwanegol ynghlwm wrth eich cwrs - gallant fod yn orfodol neu'n ddewisol. Bydd y costau hyn yn ychwanegol at ffioedd dysgu a rhaid i'r myfyrwyr eu talu er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn llwyr a chwblhau eu hastudiaeth. Bydd costau o'r fath yn berthnasol i offer, teithiau, lleoliadau ac archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fe fydd gan bob cwrs gostau ychwanegol gwahanol a chânt eu nodi ar ein gwefan dan fanylion y cyrsiau.

>> WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AU

>> LLWYDDWCH GYDA FFORDDIADWYEDD

CANOLBWYNTIO AR GYLLID

Wrth astudio addysg uwch, bydd dwy brif gost - ffioedd dysgu a chostau byw. Fodd bynnag, bydd cymorth ariannol ar gael drwy fenthyciadau (y bydd rhaid i chi eu had-dalu) a grantiau/bwrsariaethau (nad oes rhaid i chi eu had-dalu).

Gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch llawn amser*

Gall myfyrwyr sy'n astudio eu cwrs AU cyntaf, ac sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, fod yn gymwys am Fenthyciad Ffi Dysgu o hyd at uchafswm o £9,250. Nid yw'r Benthyciad Ffi Dysgu yn seiliedig ar incwm eich aelwyd. Yn ogystal â'r benthyciad hwn, gallwch gael cymorth cynhaliaeth hefyd (cymorth gyda chostau byw). Gall myfyrwyr cymwys sy'n byw oddi cartref (y tu allan i Lundain) gael £10,710 y flwyddyn, drwy gyfuniad o grant a benthyciad. Mae swm y grant a gewch yn dibynnu ar incwm eich aelwyd.

O.N Os ydych wedi astudio cwrs AU o'r blaen, mae'n bwysig eich bod yn deall y gall effeithio ar eich cymhwysedd am gymorth. Ewch i www.studentfinancewales.co.uk ac edrychwch ar yr adran Rheolau ar Astudiaeth Flaenorol.

Gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch rhan amser*

Gall myfyriwr sy'n astudio yng Nghymru wneud cais am fenthyciad nad yw'n seiliedig ar brawf modd o hyd at £2,625 i dalu am eu ffioedd blynyddol. Mae angen i fyfyrwyr fod yn astudio ar ddwysedd o 25% o leiaf er mwyn bod yn gymwys e.e. myfyriwr llawn amser yn cwblhau 120 credyd mewn blwyddyn, felly byddai angen i fyfyrwr rhan amser gwblhau o leiaf 30 credyd y flwyddyn. Gall myfyrwyr wneud cais am gymorth gyda chostau byw blynyddol am uchafswm o £5,929. Bydd swm y grant a'r benthyciad a ddyfernir i chi yn ddibynol ar y nifer o oriau y byddwch yn eu hastudio ac incwm eich aelwyd.



Bydd angen i chi wneud cais am gyllid cyn dechrau eich cwrs; gorau po gyntaf y gwnewch chi hyn. Cofiwch y bydd angen i chi wneud cais am gyllid bob blwyddyn academiaidd.

Mae manylion llawn yr holl gymorth ariannol a sut i wneud cais ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru:

» WWW.STUDENTFINANCEWALES.CO.UK

Cyllid Myfyrwyr Lloegr:

» WWW.GOV.UK/STUDENT-FINANCE



BWRSARIAETHAU, GRANTIAU A CHYMORTHDALIADAU

Gallech fod yn gymwys am fwsariaethau, grantiau neu gymorthdaliadau i'ch cefnogi chi wrth i chi astudio. Mae'r meini prawf cymhwysedd yn ddibynnol ar eich amgylchiadau. Am ragor o wybodaeth ynghylch y cynnig ariannol sydd ar gael – ewch i'n gwefan:

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AU

LWFANS MYFYRWYR ANABL

Os oes gennych anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, gallech fod yn gymwys am gymorth ariannol. Grantiau yw'r Lwfansau Myfyrwyr Anabl i helpu i dalu'r costau hanfodol ychwanegol y gallech eu hwynebu o ganlyniad i'ch anabledd.

MAE OPSIYNAU CYMORTH ARIANNOL ERAILL YN CYNNWYS:

Mae'n bosibl y cewch gyllid ychwanegol os oes gennych oedolion neu blant sy'n ariannol ddibynnol arnoch chi, gan gynnwys:

- » Grant Oedolion Dibynnol
- » Grant Gofal Plant
- » Lwfans Dysgu i Rieni

Mae lluo o opsiynau am gymorth ariannol ar gael ar ein gwefan

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AU



BUSNES A CHYFRIFEG

Mewn amgylchedd busnes sy'n newid yn gyflym, mae cyflogwyr yn chwilio am bobl sy'n barod i weithredu ac yn gallu dod o hyd i ddatrysiadau i gasgliad o broblemau yn rhwydd.

Boed ydych yn chwilio i astudio busnes neu wasanaethau ariannol a phroffesiynol; mae ein haddysgu yn berthnasol, yn gysylltiedig â safonau diwydiant ac yn eu bodloni, felly byddwch yn magu'r sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt ymhlith ymgeiswyr. Mae ein pwyslais cryf ar brofiad cysylltiedig â gwaith yn golygu y cewch sgiliau ymarferol i'w defnyddio yn y gweithle.



“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent oherwydd bod maint y dosbarthiadau yn fach, felly cewch fwy o amser a sylw gan y darlithwyr. Mae'r cwrs wedi rhoi'r anogaeth a'r dewrder i mi ddatblygu ymhellach fy ngwybodaeth mewn busnes ac un diwrnod hoffwn ddechrau fy musnes fy hun.

TARYN MASON

>> GRADD SYLFAEN MEWN BUSNES



WYDDOCH CHI?

Ar gyfartaledd, mae rheolwyr prosiectau proffesiynol busnes ac ariannol yn ennill

£51,480

(EMSI, 2021)



Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawn amser/rhan amser
Busnes	HNC	BG	Pearson	RA
Rheoli Busnes	HND	T	Prifysgol De Cymru	LA
Cyfrifeg	Diploma Proffesiynol	DC	AAT	RA

>> BETH NESAF?



Os ydych yn dewis astudio Gradd Sylfaen, efallai y cewch y dewis i astudio am flwyddyn arall yn llawn amser neu'n rhan amser yn y brifysgol o'ch dewis er mwyn codi'ch gradd i Radd Baglor lawn. Fel arall, gallwch gamu'n syth i'r byd gwaith. Yn dibynnu ar eich cwrs, mae eich opsiynau gyrfa yn cynnwys; rheoli, marchnata, cyllid, masnachu, busnes ac yswiriant.

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

ASTUDIAETHAU CEFFYLAU AC IECHYD ANIFEILIAID

Wrth eich bodd ag anifeiliaid? Beth am ddilyn gyrfa yn y maes? Carlamwch drwy un o'n cyrsiau astudiaethau ceffylau neu iechyd anifeiliaid ar ein campws gwledig a hardd ym Mrynbuga.

Mae pob cyflogwr yn chwilio am brofiad a bydd digonedd ohono ar gael ar ein campws Brynbuga. Mae gennym gyrsiau sefydledig gyda Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Aberystwyth, felly ni waeth pa gwrs ydych chi'n ei ddewis, cewch ddefnyddio'r holl gyfleusterau y byddech yn disgwyl eu cael yn y diwydiant hwn. Bydd myfyrwyr astudiaethau anifeiliaid a milfeddygol yn gweithio yn y ganolfan gofal anifeiliaid bach sy'n gartref i anifeiliaid amrywiol, o gwningod i foch cwta i rywogaethau mwy egsoftig fel ymlusgiaid a mulod, yn ogystal a'n canolfan ail-gartrefu cathod y Blue Cross.

Caiff myfyrwyr astudiaethau ceffylau ddefnydd llawn o'n hysgolion dan do ac awyr agored a'n cyfleusterau lifrai, felly byddwch yn dysgu sut i ofalu am geffylau, yn archwilio eu hymddygiad ac yn dysgu am y diwydiant ar y campws.



Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawn amser/ rhan amser
Astudiaethau Ceffylau	BSc Atodol	B	Prifysgol Aberystwyth	LA
Astudiaethau Ceffylau	Gradd Sylfaen	B	Prifysgol Aberystwyth	LA
Iechyd a Llesiant Anifeiliaid	BSc Atodol	B	Prifysgol De Cymru	LA
Iechyd a Llesiant Anifeiliaid	Gradd Sylfaen	B	Prifysgol De Cymru	LA
Nyrsio Milfeddygol	BSc Atodol	B	Prifysgol De Cymru	LA
Nyrsio Milfeddygol	Gradd Sylfaen	B	Prifysgol De Cymru	LA

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

WYDDOCH CHI?

Gweithwyr Gofal Anifeiliaid, Milfeddygon a nyrsys Milfeddygol yw'r tair swydd sy'n tyfu gyflymaf yn y sector Bwyd a Ffermio.

(Gyrfa Cymru)

“

Yn Coleg Gwent, mae darlithwyr gwych, cyfleusterau gwych, yn ogystal ag arena dan do, arena awyr agored, a cheffylau arbennig i'w cael yno! Mae'n lleol, felly rwyf wedi cael cyfle i astudio cymhwyster o safon ar hiniog fy nrws. Mae maint y dosbarthiadau yn llawer llai na dosbarthiadau prifysgol arferol, felly mae ar lefel llawer mwy personol gyda'ch darlithwyr. Byddwn yn sicr o argymhell cwrs Addysg Uwch yn Coleg Gwent.

JORDAN WHITTAKER

>> GRADD SYLFAEN ASTUDIAETHAU CEFFYLAU

>> BETH NESAF?

Efallai bydd gennych yr opsiwn i astudio am flwyddyn ychwanegol yn llawn amser neu'n rhan amser yn y brifysgol o'ch dewis er mwyn cyflawni Gradd Faglor lawn, neu ddefnyddio eich Gradd Sylfaenol fel cymhwyster annibynnol i geisio gwaith ym meysydd megis ymarfer milfeddygol, ymddygiad a seicoleg anifeiliaid.



CELF, DYLUNIO, Y CYFRYNGAU A FFOTOGRAFFIAETH

Mae'r diwydiannau creadigol yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw faes arall yn economi'r DU - newyddion gwych i raddedigion dawnus sy'n frwd dros gelf a dylunio.

Mae ennill eich bara menyndrwy gelf yn sefyllfa braf i fod ynddi. Prin iawn yw gallu dweud eich bod yn gwneud rhywbeth sy'n wirioneddol mynd â'ch bryd bob dydd, felly os ydych chi'n gallu datblygu gyrfa yn y diwydiannau creadigol, mae'n debyg y cewch fodlonrwydd mawr yn eich swydd. Ein stiwdios celf, dylunio, ffasiwn, y cyfryngau a ffotograffiaeth yw'r lle delfrydol i fynegi eich hun, arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau a pherffeithio'ch arbenigedd.

WYDDOCH CHI?

Trosiant blyneddol ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru

£2.2BN

(Cymru Greadigol, 2021)

“

Penderfynais astudio Celf a Dylunio Gemau yn Coleg Gwent oherwydd ei fod yn llawer rhatach na phrifysgolion eraill. Mae'n gwsr da iawn oherwydd bod y modiwlau wir yn eich caniatáu chi i fod yn greadigol. Mae'r tiwtoriaid yn wych ac yn creu awyrgylch braf yn y dosbarth.

THOMAS MORTON

» GRADD SYLFAEN MEWN CELF A DYLUNIO GEMAU





»» BETH NESAF?

Gall ein cyrsiau creadigol eich paratoi chi ar gyfer ystod eang o yrfaoedd a chyfleoedd yn y diwydiannau creadigol hynod gystadleuol. Ymhlith yr opsiynau mae'r cyfryngau, ffotograffiaeth, dylunio creadigol, ffasiwn, gemau a theledu a ffilmiau.

Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawm amser/ rhan amser
Ffotograffiaeth	BA Atodol	C	Prifysgol Metro- politan Caerdydd	LA
Ffotograffiaeth	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol Metro- politan Caerdydd	LA
Celf a Dylunio Gemau	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol De Cymru	LA
Y Celfyddydau Perfformio	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol De Cymru	LA
Darlunio	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol De Cymru	LA
Cynhyrchu Cyfryngau	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol De Cymru	LA
Artist-ddylunydd Gwneuthurwr	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol Metro- politan Caerdydd	LA
Darlunio*	BA Atodol	C	CMU	LA

*Mae'r cyrsiau hyn yn amodol ar ddilysiad.

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

CYFRIFIADUREG A THECHNOLEG DDIGIDOL

Mae technoleg o'n cwrpas ym mhob man yn y byd sydd ohoni, ac mae galw sylweddol am sgiliau digidol a chyfrifiadureg cryf.

Drwy ddilyn cwrs cyfrifiadureg addysg uwch, gallwch feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnoch i gael gyrfa werth chweil, yn ogystal â dysgu gan ddefnyddio offer o'r radd flaenaf.

Gellir dadlau mai Technoleg Ddigidol yw'r sector sydd yn tyfu ac yn esblygu gyflymaf; does dim digon o gyflogwyr yn meddu ar y sgiliau priodol i lenwi'r holl swyddi, felly mae cyflogwyr o hyd yn chwilio am recriwtiaid posibl sy'n meddu ar y sgiliau hyn.

WYDDOCH CHI?

Ar gyfartaledd, y cyflog sydd i'w gael yn y sector hwn yw

£50k

(EMSI, 2021)



“

Mae Coleg Gwent yn cynnig llawer o gyfleoedd gwyh; gan gynnwys cyfleoedd profiad gwaith gwyh. Mae maint y dosbarthiadau yn llai na'r brifysgol ac wrth gwrs, cewch ddod i nabod y tiwtoriaid yn dda. Ar ôl gorffen fy nghwrs, hoffwn fynd ymlaen i wneud fy ngradd atodol Baglor ac o'r fan honno wedyn, gobeithiaf sicrhau swydd yn y sector TG, megis cymorth systemau neu rwydweithio.

NICHOLAS MALOLEPSZY

» HND CYFRIFIADURA



» BETH NESAF?

Os ydych yn dewis astudio Gradd Sylfaen, mae'n bosibl y cewch ddewis astudio am flwyddyn arall yn llawn neu'n rhan amser yn eich prifysgol ddewisol i'w chodi i Radd Baglor lawn, neu fel arall gallwch gamu'n syth i'r byd gwaith. Gallai eich opsiynau gyrfa, yn dibynnu ar eich cwrs, gynnwys cyfarwyddwr TG, datblygwr meddalwedd, rhaglennu, cymorth system a llawer mwy!

Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawm amser/ rhan amser
Technolegau Digidol	HNC	BG	Pearson	RA
Cyfrifiadura	HND	DC	Prifysgol De Cymru	LA

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

ADEILADU A'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Cynlluniwch ac adeiladwch eich dyfodol eich hun yn y maes adeiladu. Mae dilyn gyrfa adeiladu yn gyfle i chi adael eich ôl go iawn ar gymdogaethau'r dyfodol.

Bydd ein cymwysterau lefel uwch yn rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad yn y diwydiant y mae cyflogwyr yn ysu amdanynt.

Os ydych chi am gyfrannu at newid siâp y gorwel, adeiladu pontydd hyfryd neu ddylanwadu ar bensaernïaeth, byddwch yn dysgu'r holl dechnegau a'r egwyddorion diweddaraf i'ch paratoi chi ar gyfer ein HNC mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig – mae unrhyw beth yn bosib.

Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawm amser/ rhan amser
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HNC	DC	Pearson	LA
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HNC	DC	Pearson	RA
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HND	DC	Pearson	LA
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HND	DC	Pearson	RA

Gall Rheolwyr Safle Adeiladu
profiadol ennill hyd at

£47,500

(EMS, 2022)



Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

WYDDOCH CHI?

Roedd dros

2500**o swyddi adeiladu
i'w cael yng
Nghymru yn 2021**

(EMSI, 2022)

>> BETH NESAF?

Efallai y bydd gennych y dewis i astudio am flwyddyn arall yn llawn amser neu'n rhan amser yn y brifysgol o'ch dewis i gyflawni Gradd Sylfaen lawn, neu gallech wneud eich Gradd Sylfaen fel cymhwyster annibynnol a chamu i'r byd gwaith ym meysydd megis peirianeg sifil, rheoli prosiectau, seilwaith, pensaernïaeth neu osodiadau trydanol.

“


Dechreuais arni ar lefel 3 ac yna datblygais i wneud yr HNC a'r HND. Mae'r cyrsiau yn rhoi dealltwriaeth well i chi am bob agwedd ar adeiladu ac mae Coleg Gwent wedi rhoi cysylltiadau gwych â chyflogwyr a phrofiadau i mi er mwyn fy ngwneud yn fwy cyflogadwy. Mae maint y dosbarthiadau yn llai a chewch fwy o addysg un i un, a oedd yn hynod fuddiol!

BEN ROBERTS

**>> HND ADEILADU
A'R AMGYLCHEDD
ADEILEDIG**



ADDYSG A HYFFORDDIANT



**Awydd gwneud gwahaniaeth ym mywyd
rhywun drwy addysgu?**

Gall gyrfa addysgu fod yn gyffrous a gwerth chweil, yn ogystal â chynnig yr amrywiaeth a'r cyfle i chi wella rhagolygon eraill ar gyfer y dyfodol. Mae ein cyrsiau yn ein cymhwyso chi i addysgu unigolion dros 16 oed, felly bydd angen i chi allu ymwneud yn dda â myfyrwyr o bob oedran a gallu, gan fod y proffil o fyfyrwyr posibl yn eang tu hwnt. Gallech fod yn addysgu cyrsiau academaidd i ymadawyr ysgol sydd eisiau mynd i'r brifysgol, oedolion sydd eisiau newid cyfeiriad eu gyrfa neu bobl sy'n dychwelyd i'r ystafell ddosbarth flynyddoedd ar ôl gadael y byd addysg.

»» BETH NESAF?

Mae ein cyrsiau addysgu yn eich cymhwyso chi i addysgu mewn addysg ôl-16 oed a allai gynnwys colegau, dosbarthiadau chweched dosbarth, addysg i oedolion ac yn y gymuned, darparwyr hyfforddiant cysylltiedig â gwaith a lleoliadau dysgu troseddwy. Nid ydynt yn rhoi statws athro cymwys i chi, sy'n ofynnol ar gyfer addysgu cynradd ac uwchradd.

WYDDOCH CHI?

Ar gyfartaledd, y cyflog i arbenigwyr addysgu oedran cynradd a meithrin yw

£40,560

(EMSI, 2021)



Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawr amser/ rhan amser
Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET)	Tystysgrif Broffesiynol	BG	Prifysgol De Cymru	RA
Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET)	Tystysgrif Raddedig Broffesiynol (TAR)	BG	Prifysgol De Cymru	RA



“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent oherwydd mae'r bobl yr ydych yn eu cwrdd yno yn wych. Roedd fy nhiwtor personol yn arbennig, yn hynod gefnogol, yn broffesiynol ac roeddwn yn gyfforddus iawn yn sgwrsio gydag ef am unrhyw beth. Yn ystod y profiad gwaith, cewch adborth strwythuredig ac effeithiol a gallwch ei roi ar waith drwy eich addysgu, ac mae'n eich helpu chi i ddeall anghenion dysgu gwahanol.

MACEY JONES

**>> ADDYSG A HYFFORDDIANT
ÔL-ORFODOL**

PEIRIANNEG

Dyfeisiwch eich dyfodol! Mae peirianwyr yn hanfodol i fywyd bob dydd, o'r ffonau rydym yn eu defnyddio, y diaroglydd rydym yn ei roi ar ein cyrff i'r awyrennau rydym yn teithio ynddynt. Mae'r sector yn amrywiol iawn, yn hynod fedrus ac yn talu'n dda.

Mae galw mawr am beirianwyr, felly mae swyddi ar gael bob amser. Gwaith peirianwyr mecanyddol yw dylunio a chynnal cydrannau a systemau gan ddefnyddio eu gwybodaeth ffiseg a mathemateg, a chan weithio gyda deunyddiau uwch megis ffeibr carbon a deunyddiau cyfansawdd.

O ddarnau cydrannol bychain i rwydweithiau neu gridiau trydanol cyfan; mae angen trydan ar gyfer busnes, cyfathrebu ac adloniant. Os ydych chi'n rhoi sylw at fanylion ac yn wybodus ynghylch yr egwyddorion, peirianneg drydanol yw'r dewis delfrydol i chi.

“

Fy nod yw dod yn beiriannydd a thrwy astudio yn Coleg Gwent enillais y cymwysterau academaidd sydd eu hangen arnaf. Mae'r cwrs yn hyblyg ac mae popeth yr ydych yn ei ddysgu yn berthnasol ac yn drosglwyddadwy i amgylcheddau gwaith. Mae'r tiwtoriaid yn wych, mae gennyf berthynas dda gyda nhw a gallaf ofyn am help unrhyw bryd.

HYWEL CRUICKSHANK
» HND PEIRIANNEG


Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

WYDDOCH CHI?

Mae galw mawr am Beirianwyr Mecanyddol yng Nghymru, gyda bron i

3,000 O BOBL

wedi'u cyflogi yn y rôl hon – mae hynny 14% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.



>> BETH NESAF?

Yn dibynnu ar ba lwybr ydych chi'n ei ddewis, gallech fynd yn eich blaen i weithio yn un o'r meysydd awyrenegol, modurol neu gyfansoddion, a meysydd peirianeg cysylltiedig. Os ydych yn astudio HNC, gallech hefyd fynd ymlaen i astudio ymhellach, drwy astudio'r HND neu un o'r graddau peirianeg.

Ar gyfartaledd, mae Peirianwyr Trydanol yng Nghymru yn ennill

£44,700

(EMSI, 2022)

Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawm amser/ rhan amser
Peirianeg Fecanyddol	HNC	C	Pearson	RA
Peirianeg Fecanyddol	HND	C	Prifysgol De Cymru	RA
Peirianeg Electronig a Thrydanol	HNC	C	Pearson	RA
Peirianeg Electronig a Thrydanol	HND	C	Prifysgol De Cymru	RA
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HNC	DC	Pearson	RA
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HND	DC	Pearson	RA
Peirianeg Sifil	HNC	DC	Pearson	RA
Peirianeg Sifil	HND	DC	Pearson	RA
Thrydanol (Chwaraeon Moduro)	HNC	BG	Pearson	LA

COLUR AR GYFER Y THEATR/CYFRYNGAU A THERAPIAU CYFLENWOL

Gall ein cyrsiau harddwch a therapiau eich helpu chi i ddechrau ar yr yrfa yr ydych yn dyheu amdani!

Bydd eich creadigrwydd yn disgleirio wrth ddilyn ein cyrsiau colur theatrig addysg uwch, a chewch feithrin yr holl sgiliau sydd eu hangen arnoch i weithio mewn rôl gyffrous yn y diwydiant colur ar gyfer ffilmiau, y theatr a theledu.

Ar ôl cwblhau ein cyrsiau therapiau cyflenwol, byddwch yn therapydd arbenigol, medrus achrededig sy'n barod i wynebu'r byd gwaith.

WYDDOCH CHI?

Fel uwch-artist colur effeithiau arbennig, gallech ennill hyd at

£62,196

(Salary Expert UK, 2022)



Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawr amser/ rhan amser
Gofal Iechyd Cyflenwol (gyda statws Ymarferydd)	HND	C	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	LA
Colur Arbenigol	HND	C	Pearson	LA



“

Rwy'n mwynhau pob agwedd ar fy nghwrs. Rwy'n hoff o'r campws ac rwyf wrth fy modd â modiwlau'r cwrs oherwydd bod modd eu teilwra. Rwy'n hoffi'r tiwtoriaid oherwydd eu bod mor gefnogol, maent yn rhoi cymorth academiaidd a gallant hefyd eich rhoi chi ar ben y ffordd os oes angen cymorth o fath arall arnoch, gydag iechyd meddwl neu lesiant er enghraifft.

EMILY WATKINS

» COLUR THEATRIG A'R CYFRYNGAU

» BETH NESAF?

Ar ôl cwblhau cwrs HND, gallwch symud ymlaen ymhellach a chwblhau gradd israddedig ym maes therapïau cyflenwol neu golor arbenigol. Fel arall, os ydych chi'n dymuno camu'n syth i fyd gwaith gyda'ch HND, sylwch y gallwch wneud cais am swyddi uwch neu fwy arbenigol yn y sector.

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

IECHYD A GOFAL Y CYHOEDD

Gofalwch am eich dyfodol. Mae'r sector gofal yn cynnig ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith a all roi boddhad mawr i chi, ac a all gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl eraill.

Gall ein cyrsiau gofal iechyd eich paratoi chi am yrfa lwyddiannus, boed ydych yn dymuno gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion, arwain tîm i ddarparu gofal o'r ansawdd orau neu ddylanwadu polisi ar lefel genedlaethol neu ranbarthol.

Os byddai'n well gennych yrfa mewn gofal plant, bydd ein cwrs astudiaethau plentyndod yn rhoi i chi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad ymarferol a fydd ei angen arnoch mewn sector heriol ond hynod amrywiol a gwerth chweil. O ystyried bod iechyd meddwl a chorfforol yn bynciau mor ddadleuol ac amlwg yn y gymdeithas sydd ohoni, bydd ein Graddau Sylfaen arbenigol yn eich darparu chi â'r ddealltwriaeth i ymuno â'r sgwrs.

Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawm amser/rhan amser
Astudiaethau Plentyndod	Gradd Sylfaen	BG	Prifysgol De Cymru	LA
Astudiaethau Plentyndod	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol De Cymru	LA
Iechyd a Llesiant Cymunedol	Gradd Sylfaen	BG	Prifysgol De Cymru	LA
Iechyd a Llesiant Cymunedol	Gradd Sylfaen	T	Prifysgol De Cymru	LA
Gofal Ieuencid a Chymdeithasol*	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol De Cymru	LA
Camddefnyddio Sylweddau *	Tyst AU	C	Prifysgol De Cymru	LA

WYDDOCH CHI?

Gall arbenigwyr profiadol yn y sector hwn ennill hyd at

£39K

(EMSI, 2022)



*Mae'r cyrsiau hyn yn amodol ar ddilysiad
Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

» BETH NESAF?

Efallai y bydd gennych y dewis i astudio am flwyddyn arall yn llawn amser neu'n rhan amser yn y brifysgol o'ch dewis i gyflawni Gradd Baglor lawn, neu gallech gyflawni'ch Gradd Sylfaen fel cymhwyster annibynnol a sicrhau gwaith ym meysydd megis gwaith ieuencid, gwaith cymdeithasol, ysbytai, gofal plant neu therapi.

“

Byddwn yn argymhell addysg uwch yn Coleg Gwent oherwydd bod y cwrs wedi fy helpu i ddatblygu cymaint yn academiaidd ac yn bersonol fel unigolyn. Ni fyddai hyn wedi digwydd heb gymorth anhygoel gan fy nhwtoriaid a myfyrwyr eraill. Rwy'n llawer mwy hyderus ym mhob agwedd ar fy mywyd.

CARLY STEPHENS

» GRADD SYLFAEN IECHYD A LLESIANT CYMUNEDOL



CERDDORIAETH, DRAMA A DAWNS

O'r goleuadau disglair i'r sbotolau...mae'r diwydiant hwn yn ymwneud â gwefr creadigol, egni a brwdfrydedd. Os ydych yn gartrefol ar y prif lwyfan, yn y stiwdio recordio neu'r llawr dawns, yna dyma'r diwydiant delfrydol i chi.

Mae Cymru yn gwneud enw iddi hi ei hun yn y diwydiannau creadigol, un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn y wlad, drwy gynhyrchu sioeau teledu hynod boblogaidd ac fel cartref i gerddorion a chantorion enwog. Beth am ychwanegu at y sêr hynny drwy astudio gyda ni heddiw?

“

Mae astudio yn Coleg Gwent yn wych oherwydd ei fod yn lleol ac mae'r cyfarpar sydd ar gael yma yn rhoi blas i chi ar y proffesiwn. Cewch gwrdd ag arbenigwyr yn y diwydiant a chael adborth ganddynt hwythau hefyd. Y prosiect arbenigol yw'r agwedd fwyaf boddhaus, chi sydd mewn rheolaeth lwyr o ganlyniad, cynnwys a chyfeiriad y prosiect.

JOSEPH FURLEY

**>> GRADD SYLFAEN YN Y
CELFYDDYDAU PERFFORMIO**



Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawm amser/ rhan amser
Diwydiannau Creadigol: Technoleg Cerdd Boblogaidd (Llwybr Perfformio Cerddoriaeth)	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol De Cymru	LA
Diwydiannau Creadigol: Technoleg Cerddoriaeth Boblogaidd (Llwybr Cynhyrchu Cerddoriaeth)	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol De Cymru	LA
Y Celfyddydau Perfformio	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol De Cymru	LA

WYDDOCH CHI?

Yn nodweddiadol, mae actorion, diddanwyr a chyflwynwyr yn ennill

£58,240

yng Nghymru

(Cymru Greadigol, 2021)

» BETH NESAF?

Efallai bydd gennych yr opsiwn i astudio am flwyddyn ychwanegol yn llawn amser neu'n rhan amser yn y brifysgol o'ch dewis er mwyn cyflawni Gradd Faglor lawn, neu gallech gyflawni eich Gradd Sylfaenol fel cymhwyster annibynnol a sicrhau gwaith ym meysydd megis perfformio, teledu, cynhyrchu cerddoriaeth, canu a llawer mwy!



Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

GWYDDONIAETH

Canfod y fformiwla er mwyn llwyddo. Mae gwyddoniaeth o'n cwrmpas ni bob dydd, o symudiad ceir, y feddyginiaeth rydym yn ei chymryd i siarad â Siri ar ein ffonau symudol. Mae datblygiadau technolegol a gwyddonol yn newid y byd rydym yn byw ynddo yn gyson; gallech weithio mewn deallusrwydd artifisial a chyda robotiaid hyd yn oed!

Drwy astudio yn Coleg Gwent, cewch brofiad o lygad y ffynnon yn ein labordai gwyddoniaeth pwrpasol, y cyfan ag offer safonol y diwydiant. Yn ogystal cewch eich addysgu gan ein darlithwyr arbenigol, sy'n gyfoeth o wybodaeth, a chewch gymorth gan dechnegwyr sydd â phrofiad diwydiannol a fforensig helaeth.




» YN NEWYDD AR GYFER 2023!

Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawm amser/rhan amser
Gwyddorau Biofeddygol *	HND	T	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	LA

WYDDOCH CHI?

Mae llawer o'r cwmnïau technoleg sy'n dibynnu ar weithwyr proffesiynol yn gwmnïau byd-eang. Felly, gallai gyrfa yn y sector hwn eich gweld yn teithio'r byd, yn datrys heriau rhyngwladol, neu'n gweithio mewn labordai fforensig yn y DU neu dramor.



*Mae'r cwrs hwn yn amodol ar ddilysiad.

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

» BETH NESAF?

Gall ein cyrsiau gwyddoniaeth arwain at lawer o opsiynau gyrfaol, yn cynnwys gwyddor fforensig, cyfrifiadureg fforensig, technegydd labordy neu ymchwil.

“


Byddwn yn argymhell cwrs gwyddoniaeth yn Coleg Gwent oherwydd; nid yw'r profiad yn eich gorlethu, mae cryn dipyn o amser rhydd ar gyfer dysgu annibynnol ac mae popeth sydd ei angen arnoch yn y Coleg. Rwy'n ei fwynhau a minnau'n fyfyrwr hŷn, mae'r dysgwyr yn fy nosbarth yn hŷn - rydym ni i gyd oddeutu'r un oedran ac yma am reswm.

ZUZANNA KALEK

» MYNEDIAD I FIOUYDDORAU



CHWARAEON A GWASANAETHAU CYHOEDDUS



Dilynwch ôl traed eich arwyr yn y byd chwaraeon, neu gwarchodwch ein cymunedau gyda swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus a brys. O chwaraeon ar lawr gwlad yn y gymuned i gystadleuaeth ar lefel elitaidd, mae hyfforddi yn hanfodol i ddatblygiad ffitrwydd, strategaeth a seicoleg chwaraeon. Byddwch yn gwneud cyfres o leoliadau gwaith er mwyn rhoi'r profiad ymarferol i chi mewn rôl chwaraeon; gan roi cipolwg o hyfforddi ar sail tystiolaeth i chi, yn ogystal â datblygu eich dealltwriaeth dechnegol.

Y gwasanaethau cyhoeddus a brys yw calon ein cymunedau, ac mae'r rheini sy'n dilyn gyrfa yn un o'r gwasanaethau mewn lifrai neu wasanaethau heb lifrai yn chwarae rhan bwysig o fewn cymdeithas ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau eraill. Byddwch yn mynd i'r afael â holl agweddau gwasanaethau cyhoeddus a brys, o reoli a chymhell pobl i effaith deddfwriaeth ar gymdeithas.

“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent oherwydd bod y darlithwyr yn wych, mae gan y cwbl brofiad mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn arbenigo mewn meysydd gwahanol, felly cewch eich amlygu i ystod o wybodaeth. Maen nhw hefyd yn cynnig dosbarthiadau llai felly cewch fwy o addysgu un i un nag y byddech yn ei chael yn y brifysgol.

HUW LLOYD

» HND GWASANAETHAU CYHOEDDUS A BRY



Cwrs	Dyfarniad	Campws	Sefydliad dilysu	Llawm amser/ rhan amser
Ymarfer Corff a Rheoli Llesiant	Gradd Sylfaen	BG	Prifysgol De Cymru	LA
Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol De Cymru	LA
Cyflyru, Adfer a Thyliino Chwaraeon	Gradd Sylfaen	C	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	LA
HND Gwasanaethau Cyhoeddus a Brys	HND	C	Prifysgol De Cymru	LA
HND Gwasanaethau Cyhoeddus a Brys	HND	T	Prifysgol De Cymru	LA

WYDDOCH CHI?

Cyflog cyfartalog swyddog yr heddlu profiadol yw

£43,000

(Gyrfa Cymru, 2022)



» BETH NESAF?

Os ydych yn astudio Gradd Sylfaen, efallai bydd gennych yr opsiwn i astudio am flwyddyn ychwanegol yn llawn amser neu'n rhan amser yn y brifysgol o'ch dewis er mwyn cyflawni Gradd Baglor lawn, neu gallwch gamu'n syth i'r byd gwaith. Os ydych yn astudio HND, bydd hyn yn eich caniatáu chi i wneud cais am swydd uwch neu fwy arbenigol. Yn dibynnu ar eich cwrs, gallai opsiynau gyrfa gynnwys diffoddwr tân, swyddog yr heddlu, ymchwilydd safle trosedd, hyfforddwr personol, hyfforddwr llesiant a mwy!

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

SUT I WNEUD CAIS



**CWBLHEWCH
FFURFLEN GAIS**



**DERBYN
EICH CYNNIG**



**CAEL
CYNNIG**



MYNYCHU COFRESTRU



DECHRAU COLEG!

SUT I WNEUD CAIS

Pan fyddwch wedi dewis y cwrs yr hoffech ei astudio, mae gwneud cais yn broses rwydd! Nid oes angen gwneud cais ar gyfer y rhan fwyaf o'n cyrsiau drwy UCAS*, felly gallwch wneud cais ar ein gwefan mewn ychydig funudau. Gwnewch gais nawr!

GWNEWCH GAIS

NAWR

www.coleggwent.ac.uk



“

Roedd gwneud cais yn rhwydd!
Roeddwn i'n nerfus oherwydd fy oedran a minnau wedi gweithio'n llawn amser ers i mi adael yr ysgol, roeddwn i'n credu mai dyna oedd fy unig opsiwn. Bu'r cam cyfweliad yn gymorth mawr i mi gan eu bod wedi ateb fy holl gwestiynau a thawelu fy meddwl, felly roeddwn yn falch iawn o gael lle ar y cwrs.

TOM HATHWAY

**GRADD SYLFAEN MEWN
DYLUNIO**

Wrth wneud cais ar gyfer cyrsiau Prifysgol Caerwrangon, rhaid defnyddio trefniadau ymgeisio UCAS.